

ISSN 2053-5171
Rhifyn 8
Haf 2015

Herio Materion Crefyddol

Mikel Burley
ar Fywyd Tragwyddol fel
Meddiant Presennol

Christopher Insole
ar Kant ar Dduw a'r Da:
Gobeithio a Hapurwydd

Ian James Kidd
ar Ffurio-enaid ac
'Echyllterau'

Emily Pollard
ar Foeseq Rhyfel:
Damcaniaeth Rhyfel
Cyfiawn

Herio Materion Crefyddol

Cefnogi Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch a thu hwnt

Rhifyn 8 Haf 2015

Cynnwys

Bywyd Tragwyddol fel Meddiant Presennol Mikel Burley	2
Kant ar Dduw a'r Da: Gobeithio am Hapusrwydd Christopher Insole	8
Ffurio-enaid ac 'Echyllterau' Ian James Kidd	14
Moeseg Rhyfel: Damcaniaeth Rhyfel Cyfiawn Emily Pollard	20

Golygydd

Professor Jeff Astley (Prifysgol Glyndŵr)

Golygydd Rheolaethol

Dr Tania ap Siôn (Prifysgol Glyndŵr, Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn)

Ymgynhorwyr Golygyddol

Yr Athro Leslie J. Francis (Prifysgol Warwick)

Libby Jones (Canolfan Sant Silyn, Wrecsam)

Yr Athro David Lankshear (Prifysgol Glyndŵr)

Phil Lord (Arweinydd System, GwE)

Yr Athro Peter Neil (Prifysgol Bishop Grosseteste)

Dr Stephen Parker (Prifysgol Worcester)

Jenny Rolph (Prifysgol Glyndŵr)

Dr Paul Rolph (Prifysgol Glyndŵr)

Y Parchedig Mary Stallard (Canolfan Sant Silyn, Wrecsam)

Y Gwir Barchedig David Walker (Prifysgol Glyndŵr)

Yr Athro Michael West (Prifysgol Glyndŵr)

Dyluniwyd gan Phillip Vernon

Cyfieithiad gan Nant Roberts

Herio Materion Crefyddol

Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn

Llys Onnen

Abergwyngregyn

Gwynedd

LL33 0LD

Ffôn: 01248 680131

E-bost: t.apsion@glyndwr.ac.uk

Gwefan: www.st-marys-centre.org.uk

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru

Bywyd Tragwyddol fel Meddiant Presennol

Mikel Burley

Mae'r erthygl hon yn archwilio'r ddadl, sydd yn cael ei chynnig gan rai diwinyddion Cristnogol, fod 'bywyd tragwyddol' yn ddealladwy ar ei orau pan nad yw'n golygu bywyd yn mynd yn ei flaen am byth, ond yn nodwedd o, neu'n bersbectif ar, y bywyd meidrol y mae pob un ohonom yn ei fyw ar yn awr. Mae'n cynnwys awgrym petrus fod rhai syniadau neilltuol ynghylch ffiseg ddamcaniaethol ac athroniaeth sy'n ymwneud ag amser yn gymharol i'r ddadl hon.

Cyswllt manyleb: CBAC RS4 PD: Astudio Crefydd a Phrofiadau Dynol (A2). Bywyd, marwolaeth a bywyd ar ôl marwolaeth.

Beth yw ystyr 'bywyd tragwyddol'?

Honnir yn aml fod Cristnogion sy'n credu mewn bywyd tragwyddol yn credu y bydd pawb (neu o leiaf rhai pobl) ar ôl marwolaeth yn byw drachefn, ac y bydd y bywyd adnewyddol hwn yn un na fydd byth yn gorffen; amgyffred bywyd o'r fath. Er enghraifft, gallai rywun dybio ei fod yn un sy'n cael ei fyw yn y nefoedd, a ddychmygir fel lle o lawenydd perffaith a daionus sydd ar wahân i'r ddaear. Yn y cyfamser, gall rhywun arall, dybio mai bywyd tragwyddol yw'r un a gymerir gennym unwaith yr ydym wedi bod trwy atgyfodiad corfforol ar y ddaear hon, serch ei bod yn ddaear a fydd wedi cael ei thrawsnewid yn ddramatig.

Trydydd safbwynt yw nad dau le gwahanol yw nefoedd a daear, ond dau ddimensiwn o greadigaeth ddaionus Duw - *[but two] dimensions of God's*

good creation' (Wright, 2007, t. 122); bydd atgyfodiad, bywyd tragwyddol, yn ymwneud â thrwythiad o'r bydysawd cyfan â phriodweddau, nefolaidd neu ddwyfol (Polkinghorne, 2003, t. 22).

Mae hefyd ffyrdd o ddehongli 'bywyd tragwyddol' sydd ddim yn ei wneud yn gyfystyr â byw am byth. Mae rhai Cristnogion, yn cynnwys rhai diwinyddion, yn ystyried bywyd tragwyddol yn *feddiant presennol* - rhywbeth sy'n nodweddu'r bywyd y mae rhywun yn ei fyw yma'n awr. Nid yw credu mewn bywyd tragwyddol yn yr ystyr hwn o reidrwydd yn groes i gredu ei fod yn parhau am byth; mae'n bosib credu ei fod, er yn wir fe all rywun feddu ar fywyd tragwyddol yma'n awr, 'rhagflas' yn unig o'r hyn sydd i ddod yw'r cyfan o'r meddiant presennol hwn (Baillie, 1934, t. 246). Fodd bynnag, mae rhai cynigwyr o'r syniad fod bywyd tragwyddol yn (neu'n gallu bod) yn

Bywyd Tragwyddol fel Meddiant Presennol

feddiant presennol, yn gwadu'r ffaith y gall bywyd cyfredol rhywun ddarparu dim ond rhagflas; maen nhw'n haeru fod bywyd tragwyddol, os yw wedi ei feddu o gwbl, yn gyfan gwbl ac yn hollol yn nodwedd o'r bywyd meidrol yr ydym yn ei fyw yn awr.

Mae'n dasg anodd deall beth y mae'r honiad diwethaf yn ei olygu, a chynigir eglurhad pellach islaw. Ond y gyntaf gadewch i ni ystyried tri o'r llawer o resymau pam y byddai rhywun sy'n galw ei hun yn Gristion yn teimlo, o bosib, yn anghyfforddus gyda'r syniad bod 'bywyd tragwyddol' yn golygu byw am byth.

Problemau gyda'r syniad o fyw am byth

Anghydweddol â gwyddoniaeth fodern

Un broblem hollbresennol yw yr honnir yn eang bod y gred mewn unrhyw fath o fywyd ar ôl marwolaeth yn anghydweddol â'r math o safbwynt wyddonol-wybodol naturyddol byd-eang sy'n bodoli mewn llawer o gymdeithasau modern prif-lif. Er y gallai Cristnogion geisio ymrwngod â rhai agweddau ar y safbwynt byd-eang hwnnw neu geisio cael hyd i ffyrdd o'i gymhwyso oddi mewn i bersbectif crefyddol ehangach, mae'r pwysau i hepgor credoau sy'n ymddangos eu bod yn gwrthdaro yn erbyn damcaniaethau gwyddoniaeth naturiol, yn aros yn gryf (Badham, 2013, t 12).

Y risg o hunanfodhad

Mae'r ail broblem yn ymwneud â'r syniad y gallai'r gred mewn 'bywyd tragwyddol' olygu byw am byth annog hunanfodhad, yn y syniad o ostwng ymrwymiad y credadun i welliant moesol a gwleidyddol. Os ydyn ni'n ystyried ein bywydau mor gyfyngedig o ran hyd, yna mae ein penderfyniadau a'n camau gweithredu yn cael eu trwytho ag 'arwyddocâd a brys' y

byddent yn brin fel arall (Jantzen, 1994, t. 268); daw yn orfodol ein bod yn gwneud cymaint ag y gallwn i ddileu anghyfiawnder a gwella lles pawb yn y bywyd hwn. Ond os nad yw marwolaeth yn derfynol, a'n bod yn disgwyl i ddioddefaint gael ei ddigolledu yn y bywyd nesaf, yna fe fyddai'r cymhelliad i weithredu yn y ffyrdd hyn yn debygol o gael ei wanhau (Lash, 1979, t. 180).

Cymhellion llygru

Problem bellach gyda'r gred mewn byw am byth yw y gallai nid yn unig annog hunanfodhad, ond hefyd niweidio cymeriad moesol rhywun trwy gynnig cymhellion hunanlesol am bethau a fyddai fel arall yn weithredoedd haelionus.

Fe fyddai llawer o bobl yn cytuno, er enghraifft, bod rhoi arian i elusen oherwydd bod rhywun yn credu mai dyma'r peth iawn i'w wneud yn foisol well na'i roi oherwydd bod rhywun yn disgwyl derbyn clod gan ffrindiau am wneud y fath beth; yn yr achos diwethaf, bydd natur hunanlesol yr ysgogiad yn amharu ar ansawdd foisol y weithred.

Yn yr un modd, mae ymddwyn mewn ffordd rinweddol yn y gobaith o dderbyn gwobr ar ôl marwolaeth yn debygol o gael ei ystyried gan lawer fel bod yn foisol waeth nag ymddwyn yn rhinweddol heb chwennych ddim budd i chi eich hunan (Main, 2013, t. 89). Yn wir, byddai rhai'n dweud fod y person sy'n cyflawni rhai gweithredoedd neilltuol er mwyn ennill gwobr bosib, ddim mewn gwirionedd yn ymddwyn yn foisol o gwbl; yn hytrach, nid yw ef neu hi ddim ond yn ymddwyn yn ochelgar.

Nid yw cred mewn bywyd ar ôl marwolaeth o reidrydd yn golygu dim ond y cyfryw gymhellion gochelgar, ond gall rhai feddwl fod tebygrwydd cryf y byddai hynny'n digwydd.

Bywyd Tragwyddol fel Meddiant Presennol

Cadarnhau bywyd tragwyddol fel meddiant presennol

Gellid, heb amheuaeth, ymateb i'r problemau uchod mewn ffyrdd sydd yn ceisio, o bersbectif Cristnogol, amddiffyn hygrededd y gred mewn byw am byth (gweler, e.e., Taliaferro, 1990). Yma, fodd bynnag, fy mwriad i yw manylu ar yr ymateb sy'n cynnig, nid amddiffyn y gred mewn byw am byth, ond yn hytrach wrthod y dehongliad neilltuol hwnnw o 'fywyd tragwyddol' o blaid y safbwynt fod bywyd tragwyddol yn feddiant presennol cyfan gwbl.

Mae'r gefnogaeth Ysgrythurol i'r safbwynt diwethaf yn aml yn deillio o'r ysgrifau Ioannaidd, yn arbennig Efengyl Ioan, yn yr hon y mae Iesu yn datgan fod 'y sawl sy'n gwrandao ar fy ngair i, ac yn credu'r hwn a'm hanfonodd i, yn meddu ar fywyd tragwyddol.' (Ioan 5:24), a Llythyr Cyntaf Ioan, yn yr hwn y mae'r awdur yn dweud, 'Yr wyf yn ysgrifennu'r pethau hyn atoch chwi, y rhai sydd yn credu yn enw Mab Duw, er mwyn ichwi wybod bod gennych fywyd tragwyddol' (1 Ioan 5:13). Mae rhannau fel y rhain yn arwyddol o *eschatoleg gyflawnedig*, y syniad fod 'Barn wedi dod yng Nghrist' ac nad oes raid i'r rhai hynny sy'n perthyn iddo trwy ffydd yn gorfod aros tan farwolaeth er mwyn derbyn bywyd tragwyddol; maent eisoes yn ei feddu - *'those who are related to him by faith' [do not have to wait until after death to receive eternal life; they have it already]* (Hill, 1967, t. 194). Er y gall ei gyflwyno fel hyn gael ei ystyried i olygu na fyddai'r rhai yr oedd Iesu ac Ioan yn eu hannerch fyth yn marw, neu nad yw marwolaeth yn derfynol, mae rhai dehonglwyr wedi dadlau y gall hefyd roi ystyriaeth i'r posibilrwydd o ddeall bywyd tragwyddol fel rhywbeth y gall rhywun ei gael, *er bod marwolaeth yn derfynol*.

Cadarnhaodd sawl diwinydd modern adnabyddus yr hyn sy'n ymddangos yn

fersiynau o'r syniad hwn, er eu bod yn aml yn cael eu mynegi mewn ffurfiau amwys. Diwinyddion ac athronwyr sydd wedi bod yn llai amwys yw Nicholas Lash a D. Z. Phillips.

Dadleua Lash, er enghraifft, y dylai ymadroddion fel 'bywyd *ar ôl* marwolaeth' gael eu deall fel ffyrdd trosiadol o siarad, ac nad yw bywyd yn cael ei gynnwys mewn bywyd amseryddol estynedig sy'n ddilynol i'r un presennol, ond yng nghyfanrwydd y bywyd presennol ei hun, gyda'i ddechreuad penodol a chyda marwolaeth ar ei ddiwedd. Y pwynt hanfodol ar gyfer Lash yw bod y bywyd hwn, er yn gyfyngedig o ran hyd, yn dragwyddol o safbwynt Duw, gan yr Hwn y caiff ei greu a'i garu; mae bywyd rhywun yn rhan annatod o dragwyddoldeb Duw yn yr ystyr 'ei fod ... yn fynegiant tragwyddol o Dduw'- *'it is ... eternally an expression of God'* (Lash, 1979, t. 179).

Ond, gall rywun ofyn, beth mae hyn yn ei olygu fod bywyd rhywun yn rhan weithredol, ac felly'n fynegiant o, fywyd Duw? Mae Phillips yn mynd i'r afael â'r cwestiwn hwn trwy bwysleisio'r trawsnewid *moesol* y mae'r ffydd Gristnogol yn ein gorchymyn i fynd trwyddo. Dywed Phillips, 'Eternity is not *more* life, but this life seen under certain moral and religious modes of thought' (Phillips, 1970, t. 49). Yn ganolog ymysg y dulliau o feddwl sydd dan ystyriaeth gan Phillips yw'r egwyddor o 'farw i'r hunan' neu 'hunanymwadiad', sy'n golygu cyfnewid deisyfiadau hunan-ganolog a chymhelliannau â chariad at eraill, a chyda'r gydnabyddiaeth fod popeth sy'n dod atom - yn cynnwys yr union allu cynhenid i garu a maddau - yn rhodd oddi wrth Dduw. Mae byw bywyd nodweddiadol o'r ansodau hyn, yn ôl Phillips, yn gyfystyr â chymryd rhan ym mywyd Duw, ac mai dyna yw ystyr meddu ar fywyd tragwyddol.

Bywyd Tragwyddol fel Meddiant Presennol

Rhai sylwadau i gloi ar dragwyddoldeb yng nghydrannau athroniaeth amser

Nid yw'n syndod, y gall fod beirniadaethau, a bu rhai, am y math o gysyniadaeth o fywyd tragwyddol a ragwelwyd gan feddylwyr fel Lash a Phillips (gweler, e.e., Hebblethwaite, 1979; Haldane, 2010, tt. 160-175). Yn ganolog ymysg y beirniadaethau hyn mae'r ddadl nad yw dehongliad sydd ddim ond yn ddehongliad 'trosiadol' o'r cysyniadau allweddol fel rhai o fywyd tragwyddol, atgyfodiad a'r bywyd sydd i ddod, yn ddigonol i gynnal ffydd Gristnogol rymus. Mewn ymateb, byddai Lash yn ceisio troi'r byrddau, gan ddadlau mai'r union ragdybiaeth, sef bod yn rhaid deall y cyfryw gysyniadau'n 'llythrennol', sy'n arwain at anawsterau, oherwydd y mae, haeara Lash, ymhell o fod yn glir beth fyddai'n cynnwys adroddiad 'llythrennol' rhesymegol (Lash, 1979, t. 167).

Cyn cloi'r erthygl hon, fodd bynnag, dylid nodi bod cymorth i gyrraedd at gysyniad (anhrosiadol), sydd o leiaf yn gyfatebol i un Lash, i'w chanfod ym mharthau annhebygol ffiseg ddamcaniaethol ac athroniaeth amser. Oddi mewn i'r disgyblaethau diwethaf hyn, un ffordd boblogaidd o synio am y bydysawd yw fel 'amrywiol ofod-amser' sy'n cynnwys pedwar dimensiwn: y tri dimensiwn o'r gofod wedi eu hasio â'r dimensiwn unigol o amser (Dieks, 2014).

Galwodd rhai athronwyr y cysyniad hwn o'r bydysawd yn *dragwyddoldeb* – (*eternalism*) (Miller, 2013). Maen nhw'n

dadlau, er ein bod, o'n safle mewn amser cyfyngedig, yn tueddu i ystyried y dyfodol fel rhywbeth sydd hyd yn hyn ddim yn bodoli, a bod y gorffennol ddim bellach yn bodoli, mai ymddangosiad yn unig yw hyn. Pan ystyrir y bydysawd yn ei gyflawnder, ni all gael ei ystyried fel bod yn bodoli *mewn* amser, oherwydd bod amser yn un o'i gydrannau; felly mae i'r bydysawd realiti anamserol neu dragwyddol, ac mae'r gwrthrychau a'r digwyddiadau sy'n gynwysedig ynddo yn cymryd rhan yn y realiti hwnnw. Mae ein bywydau, o fod ymysg y cydrannau hynny, yn cael rhyw fath o realiti tragwyddol hefyd, (Lockwood, 2005, tt. 53-54, 69).

Mae'r weledigaeth hon o fydysawd bedwar dimensiwn yn rhyfeddol gytûn mewn rhai ystyriaethau â'r syniad diwinyddol cyffredin fod y bydysawd *fel sy'n adnabyddus gan Dduw* yn undod mewn gwirionedd, sydd ddim yn brin o unrhyw beth am y dyfodol ac sydd wedi colli dim byd o'r gorffennol - '*which lacks nothing of the future and has lost nothing of the past*' (Boethius, [c. 524 AD] 1969, Book V, §6).

Yn rhyfeddol, felly, gall astudiaeth gymharol o ddiwinyddiaeth, ffiseg ddamcaniaethol ac athroniaeth amser ildio adnoddau i fanylu ar y syniad fod ein bywydau yn meddu ar fath o dragwyddoldeb yn gymaint â bod pob un ohonom yn dal safle penderfynedig, er yn feidrol, oddi mewn holl hanes y bydysawd.

Bywyd Tragwyddol fel Meddiant Presennol

Geirfa

Eschatoleg – (*eschatology*): system o athrawiaethau yn ymwneud â'r 'pethau olaf', yn cynnwys bwriad neu nod bywyd dynol.

Tragwyddoldeb – (*eternalism*): (mewn diwinyddiaeth) y safbwynt fod Duw yn bodoli oddi allan i amser; (yn yr athroniaeth o amser) y safbwynt fod pethau a digwyddiadau'r 'gorffennol' a'r 'dyfodol' ddim yn llai real na rhai'r presennol.

Ioannaidd - (*Johannine*): o'r, neu'n perthyn i'r, apostol Ioan neu'r llyfrau yn y Testament Newydd sydd wedi eu priodoli iddo.

Safbwynt naturyddol – (*naturalistic worldview*): cysyniad o realiti sy'n eithrio unrhyw beth ar wahân i'r hyn sy'n ffenomenau naturiol.

Gweithred ochelgar (*prudential action*): gweithred gaiff ei harwain gan ystyriaethau ymarferol, ac sy'n aml yn hunanlesol.

Amrywiol ofod-amser - (*spacetime manifold*): y cyfan o'r bydysawd cymhleth, gan gynnwys y dimensiwn o amser yn ogystal â'r tri dimensiwn o ofod.

Cysylltau

<http://plato.stanford.edu/archives/spr2014/entries/eternity/> Helm, P. Eternity. *Stanford Encyclopedia of*

Philosophy (Spring 2014 edition). Ed. E.N. Zalta.

Pwyntiau trafod

1. A oes rhesymau da dros wrthod y syniad bod 'bywyd tragwyddol' yn golygu bywyd sy'n mynd yn ei flaen am byth? Os oes, beth yw'r rhesymau?
2. A ellir gwneud unrhyw synnwyr o'r honiad fod bywyd tragwyddol (neu y gall fod) yn feddiant presennol?
3. Sut gall y syniad o bersbectif Duw o'r byd ein helpu i wneud synnwyr o'r honiad bod ein bywydau, er yn feidrol, serch hynny'n dragwyddol?

Cyfeiriadau

- Badham, P. (2013). *Making sense of death and immortality*. London: SPCK. (pp. 265–277). Ed. J. Donnelly. New York: Fordham University Press.
- Baillie, J. (1934). *And the life everlasting*. London: Oxford University Press.
- Boethius (1969). *The consolation of philosophy*. Trans. V.E. Watts. London: Penguin.
- Dieks, D. (2014). Time in special relativity. In *Springer handbook of spacetime* (pp. 91–113). Eds. A. Ashtekar & V. Petkov. Dordrecht: Springer.
- Haldane, J. (2010). *Reasonable faith*. Abingdon: Routledge.
- Hebblethwaite, B. (1979). Time and eternity and life 'after' death. *Heythrop Journal*, 20(1), 57–62.
- Hill, D. (1967). *Greek words and Hebrew meanings: Studies in the semantics of soteriological terms*. Cambridge: Cambridge University Press.
- The Holy Bible*. New International Version (2011). London: Hodder & Stoughton.
- Jantzen, G.M. (1994). Do we need immortality? Reprinted in *Language, metaphysics, and death*, 2nd ed. (pp. 265–277). Ed. J. Donnelly. New York: Fordham University Press.
- Lash, N. (1979). *Theology on Dover beach*. London: Darton, Longman and Todd.
- Lockwood, M. (2005). *The labyrinth of time: Introducing the universe*. Oxford: Oxford University Press.
- Main, J. (2013). *Fully alive: The transforming power of prayer*. London: Canterbury Press.
- Miller, K. (2013). Presentism, eternalism, and the growing block. In *A companion to the philosophy of time* (pp. 345–364). Eds. A. Bardon & H. Dyke. Malden, Massachusetts: Wiley-Blackwell.
- Phillips, D.Z. (1970). *Death and immortality*. London: Macmillan.
- Polkinghorne, J. (1998). *Belief in God in an age of science*. New Haven, Connecticut: Yale University Press.
- Taliaferro, C. (1990). Why we need immortality. *Modern Theology*, 6(4), 367–377.
- Wright, N.T. (2007). *Surprised by hope*. London: SPCK.

Mae Dr Mikel Burley yn Athro Cysylltiol mewn Crefydd ac Athroniaeth ym Mhrifysgol Leeds. Ar gyfer ei gyhoeddiadau, gwelwch wefan http://www.leeds.ac.uk/arts/profile/20042/346/mikel_burley. Fe ysgrifennodd yr erthygl uchod tra roedd wedi derbyn gwobr gan yr 'Immortality Project', a gefnogwyd gan Sefydliad John Templeton.

Kant ar Dduw a'r Da: Gobeithio am Hapusrwydd Christopher Insole

Mae Kant yn dal y dylem fod yn foisol oherwydd, yn syml, mai dyma'r peth iawn i'w wneud, ac nid oherwydd y bydd yn dod â chanlyniadau da i ni. Ar yr un pryd, mae'n dadlau y dylem gredu yn Nuw, gan mai dim ond Duw all beri bod moesoldeb yn arwain at hapusrwydd. A oes gwrthddywediad yma? Mae'r erthygl yn dadlau nad oes, a phan fyddwn ni'n deall yr hyn y mae Kant yn ei olygu wrth sôn am 'fod yn dda', yna mae'r gobaith am hapusrwydd yn dilyn yn briodol. Er y credir nad yw Kant yn rhoi llawer o werth ar hapusrwydd, mae'r erthygl yn dadlau bod hapusrwydd yn bwysig i Kant, ond dim ond y math cywir o hapusrwydd.

Cyswllt manyleb: CBAC RS4 HE: Astudio Crefydd a'r Profiad Dynol (A2), Awdurdod crefyddol [mewn crefydd a moeseg, athroniaeth crefydd]; hefyd RS 3 ETH: Astudio Crefydd a Moeseg (A2), 2. Damcaniaeth foisol Kant.

Cyflwyniad

Mae Kant yn honni ei fod, mewn rhyw ystyr, yn beth hanfodol credu yn Nuw er mwyn sicrhau'r posibilrwydd o foisoldeb. Mae rhai ysgolheigion wedi canfod bod y berthynas rhwng yr agweddau hyn ar feddyliau Kant, daioni a Duw, yn drychinebus ac yn gwrth-ddweud ei hun. Un o'r pryderon allai fod yw hyn: y rheswm pam mae Kant yn credu yn Nuw yw am ei fod am eisiau gallu gobeithio bod byw'n foisol yn arwain at hapusrwydd. Ond ddylai Kant ddim bod eisiau hyn mewn gwirionedd, oherwydd ei fod hefyd eisiau i'r achos fod ein bod yn gweithredu'n foisol nid oherwydd 'cymhellion allanol', ond yn syml oherwydd mai dyma'r peth iawn i'w

wneud. Mae Kant yn crisialu'r syniad hwn o 'burdeb' moesoldeb yn ei destun, *Groundwork of the Metaphysics of Morals* (1785), lle mae'n mynegi ei syniad o'r 'rheidrwydd pendant' ('*categorical imperative*'), lle mae deddfau moesol yn cael eu deall fel y gorchmynion ('*imperatives*') hynny, y gellir eu hystyried yn berthnasol i'r holl gyfryngau moesol. Yr amheuaeth allai fod yw lle mae Duw yn aros ym meddwl Kant, fel gwarantwr hapusrwydd, mae hwn yn rhywbeth penagored anniben ganddo, y dylai Kant fod wedi ei dacluso. Lle methodd Kant, fe allwn ni, o leiaf, orffen y gwaith o gael gwared â chymhellion 'amhur' o'r fath allan o foisoldeb.

Kant ar Dduw a'r Da: Gobeithio am Hapusrwydd

Fe hoffwn i, yn gyntaf oll, geisio dangos bod ffordd o ddarllen Kant, lle mae ei adroddiad ef o'r hyn mae'n ei ystyried ydyw i 'ymdrechu i fod yn dda' (*what it is to 'strive to be good'*) yn amlwg galw am, ac yn gwyro i ryw fath o gred yn Nuw . Er mwyn hwyluso hyn, mae angen i ni archwilio rhai agweddau ar yr hyn y mae Kant yn ei olygu wrth 'ymdrechu i fod yn dda'. Er mwyn gwneud hynny, mae angen i mi agor rhai gweddau yn y ffyrdd yr ydym yn dod i gredu rhywbeth. Mae Kant â diddordeb yn y gwahanol ffyrdd y gallwn ni gredu bod amrywiaeth o gynigion ac ymrwymadau yn wir, mewn perthynas â gwahanol agweddau ar ymdrech ddynol resymegol, heb i'r cyfan allu cael eu cyfyngu i'r dasg o 'wybod ffeithiau'.

Rheswm: damcaniaethol ac ymarferol

Efallai fy mod yn dweud 'Credaf fod $2 + 2 = 4$ ', bod 'llofruddiaeth yn anghywir', a 'fy mod ar hyn o bryd yng Nghymru'. Rydym yn defnyddio'r un gair, 'credu', ond caiff gwahanol lwybrau eu cymryd ym mhob achos wrth gydsynio â'r cynigion hyn: damcaniaeth fathemategol yn yr achos cyntaf, gwerthusiad moesol yn yr ail, a disgrifiad yn y trydydd datganiad. Mae'r rhain i gyd gredoau rhesymol, ond mae fy rheswm yn cael ei ddefnyddio mewn gwahanol ffyrdd. Bydd meddwl am y gwahanol weadau o reswm yn ein helpu i ddeall athroniaeth foesol Kant.

Yn y bôn, yn achos Kant, mae rheswm dynol yn ymwneud â chyfarfyddiad sengl ac unedig â realiti. Serch hynny, mae i'r cyfarfyddiad sengl hwn wahanol agweddau, ar hyd y llinellau rydym newydd eu harchwilio. Mae Kant â diddordeb mewn gwahaniaeth y mae yn ei dynnu o draddodiad Aristotelaidd, rhwng rheswm fel mae'n ymwneud â gwybod, a rheswm fel mae'n ymwneud â

gwneud. Pan fydd rheswm yn ymwneud â gwybod, mae Kant yn galw'r rheswm hwn yn rheswm yn ei gymhwyster damcaniaethol neu ddyfaliadol, neu'n fwy cryno yn, 'rheswm damcaniaethol'. Pan fydd rheswm yn ymwneud â'r hyn y dylem ei wneud, neu y byddwn yn ei wneud, mae'n galw'r rheswm hwn yn rheswm yn ei gymhwyster ymarferol, neu'n fwy cryno, 'rheswm ymarferol'.

Rwyf am ymhelaethu yma ar y defnydd o'r gair 'dylem' yn y datganiad uchod, sef bod rheswm ymarferol ein cyfarwyddo ynghylch beth ddylem ei wneud. Mae rheswm ymarferol yn bydew mawr o gysyniad, ac mae'n cynnwys yr holl ffordd o feddwl tuag at ddiben. Mae strwythur rhesymeg ymarferol yn syml: os ydych chi am gyflawni'r diben hwnnw, gwnewch hyn. Os ydych am wneud hyn, gwnewch o fel hyn. Os ydych am fod yn lleidr da, dysgwch sut i agor dyfeisiau cloi. Os ydych am fod yn chwaraewr tennis rhagorol, ewch ati i ymarfer bob dydd.

Mae'r gwahaniaeth rhwng rheswm ymarferol a rheswm damcaniaethol yn ymateb i syniad eithaf sythweledol sydd yn hygyrch i'r rhan fwyaf ohonom. Fe allwn i bentyrru rhestrau o 'ffeithiau' yn y broses o ddisgrifio sefyllfa yn ôl y rheswm damcaniaethol: o ddisgrifiadau o synapsau'r ymennydd i gyfrifon o strwythur moleciwlaidd, amodau atmosfferig, a hanes cymdeithasol a gwleidyddol. Ond waeth pa mor uchel yr wyf yn codi'r mynydd ffeithiau, efallai na fyddwn yn dod i ganlyniad a chasgliad moesol, un sy'n dweud wrthyf beth ddylai gael ei wneud, neu ei osgoi, er enghraifft, nad yw 'artaith yn beth iawn i'w wneud'. Ar gyfer hyn, mae angen i mi weithredu rheswm yn ôl ei agwedd ymarferol ('beth y dylem ei wneud'); byddai rheswm ymarferol yn rhoi sylw gofalus i'r hyn y mae rheswm damcaniaethol yn ei

Kant ar Dduw a'r Da: Gobeithio am Hapusrwydd

ddweud wrthym am sefyllfa neilltuol, ond mae ganddo hefyd rywbeth i'w ddweud am reswm damcaniaethol.

Daioni a hapusrwydd

Felly, nawr, dychmygwch mai'r diben rwyf eisiau gyflawni yw nid yn bod yn dda am chwarae tennis, ond yn syml 'bod yn dda', a bod yr hyn y dylwn i fod. Mae gan Kant syniad o'r 'daioni uchaf', sy'n ymwneud â'n ffyniant llawn yn ein natur ddynol resymegol hollol drefnus. Mae ffyniant o'r fath yn arwain at gytgord, cymuned a hapusrwydd. Mae Kant yn ymwneud yn ganolog â chonsyrn am y llinyn o resymu ymarferol wedi ei drefnu i gyflawni'r diben hwn. Gan hynny mae rheswm ymarferol wedi'i gyfeirio at yr hyn y dylem ei wneud os ydym am fod yn dda, ac at fynegi ein natur resymegol sylfaenol.

Dyma ddiffiniad Kant o wir hapusrwydd, y math o hapusrwydd y dylem obeithio amdano:

The state of a rational being in the world in the whole of whose existence everything goes according to his wish and will. (CPrR, 5: 124)

Y cymhwyster allweddol yma yw bod hapusrwydd yn gyflwr lle mae popeth yn dilyn, nid yn ôl unrhyw 'ddymuniad ac ewyllys', ond yn ôl y 'dymuniad ac ewyllys' unigolyn rhesymegol mewn perthynas â'r 'cyfan' o'i fodolaeth. Mae Kant yn ysgrifennu '*He is worthy of happiness*', [whose] '*actions are directed to harmony*' gyda'r gweithredoedd hyn y byddai bodau rhesymol eraill yn eu deisyfu. Pan fydd y cyfan yn gweithio'n iawn, gyda phawb yn ewyllysio'r hyn a ddylen nhw mewn cymuned â phawb arall, yna 'o'r cyfan', bydd 'hapusrwydd pob rhan' yn cael ei warantu (R 7058). Dro ar ôl tro, mae Kant yn siarad am ddiben moesoldeb fel ewyllysio hapusrwydd cyffredinol cytûn:

Morality consists in the laws of the generation of true happiness from freedom in general. (R 7199, 19: 272-273)

Morality is grounded on the idea of universal happiness from free conduct. (R 6958, 19: 213-214; 1776-1778)

Insofar as human beings really judge in accordance with moral principles. (Happiness would be the natural consequence of that.) (R 1171, 1772-1775; 15: 518).

Hapusrwydd cyffredinol yw gwir ganlyniad a diben moesoldeb, lle mae 'hapusrwydd' yn ymwneud â phawb bob amser yn ewyllysio'r da, mewn cytgord â phob ewyllys arall. Mae cysyniad Kant o'r daioni uchaf yn cwmpasu moesoldeb, yn ogystal â hapusrwydd cyffredinol a chytûn o ganlyniad i foesoldeb.

Mewn bydysawd lle mae pob bod dynol yn dymuno ac yn ewyllysio daioni, byddai cytgord gwych rhwng yr holl fodau rhesymol, pob un yn ewyllysio ac yn anelu tuag at yr un diben. Fe fyddai yno gymuned o fodau rhesymol, pob un yn ewyllysio diben y gallai pawb arall fod yn ei ewyllysio. Yn y weledigaeth ogoneddus hon, fe fyddai pob bod rhesymol yn dod yn berffaith yn yr hyn y dylen nhw fod, mewn cymuned gytûn gyda bodau rhesymol eraill, ac â Duw: dyma i Kant, beth fyddai hapusrwydd. Nid yw unrhyw beth arall yn cyfrif fel hapusrwydd.

Gobaith a Duw

A yw'n achos o fod bodau rhesymol, yn y darlun hwn, yn ymgyrraedd tuag at hapusrwydd, yn y ffordd y maen nhw'n chwilio am y cyflwr o hapusrwydd fel eu nod? Wel, na, nid yn uniongyrchol. Maen nhw'n ymgeisio i fod yn dda, trwy ewyllysio'r hyn sy'n bosib ei ewyllysio'n gyffredinol gan bawb (y rheidrwydd

Kant ar Dduw a'r Da: Gobeithio am Hapusrwydd

pendant - *'categorical imperative'*). Hapusrwydd, fodd bynnag, yw canlyniad gwir a sicr yr ewyllysio cytûn a chyffredinol hwn. Yma, mae gennym ateb i'r pryder yr oeddem yn sôn amdano ar y dechrau. Fe wnaethom ofyn a yw gobaith Kant am hapusrwydd, y mae arno angen Duw er mwyn ei gael, yn groes i 'burdeb' y gyfraith foesol, lle rydym yn gwneud daioni dim ond oherwydd mai dyma'r peth iawn i'w wneud. Yn ôl fy narlleniad, fe allai Kant, ymateb trwy ddweud: 'Na, mae'r cymhelliant i fod yn dda bob amser yn unig oherwydd mai dyma'r peth iawn i'w wneud; ond fe ddylai'r hapusrwydd fod yn ganlyniad i'r ffaith ein bod ni'n dda. Dim ond Duw allai strwythuro'r bydysawd fel bod hyn yn wir, ac, felly, rydyn ni'n iawn i gredu yn Nuw. Gallwn obeithio mewn hapusrwydd, ac yn Nuw, felly, heb halogi purdeb y gyfraith foesol. Mewn ffordd gyfochrog, byddai Thomas Aquinas yn dweud mai'r hyn a ddylai ein hysgogi yn y pen draw a bod yn 'gymhelliant' i ni, yw ein dymuniad i adnabod a charu Duw (dyma gyfateb Aquinas i'r hyn mae Kant yn ei ystyried fel 'bod yn foesol'), ond mai mwynhau hapusrwydd yw canlyniad hyn. Y syniad canolog yw y gall rhywbeth fod yn ganlyniad priodol o gymhelliant, heb fod yn dod yn gymhelliad ei hun: y cymhelliad yw moesoldeb ynddo'i hun, ond hapusrwydd yw'r canlyniad.

Fel mae pethau ar hyn o bryd i ni, nid yw'r daioni uchaf yn cael ei wireddu mewn unrhyw fodd. Nid bod pawb yn ymdrechu neu'n llwyddo i fod yn dda yw'r achos yma, ac nad yw'r rhai sy'n gwneud yn cael eu gwobrwyo mewn unrhyw fodd â hapusrwydd cyffredinol a chytûn. Mae hanes y byd, fel hanes pob sefydliad, gwlad ac unigolyn yn hanes o falchder, haerllugrwydd, creulondeb, hunan-obsesiwn, ymffrost, dioddefaint a cholled.

Nid yw pethau fel y 'dylen nhw fod'. Mae hyn yn ein gwyrto tuag at y cwestiwn: 'beth allaf i ei obeithio?'.

Mae'n bwysig ein bod yn deall y momentwm naturiol ac anochel tuag at y cwestiwn hwn o ateb Kant i'r cwestiwn 'beth ddylwn i ei wneud?' Yr ateb i'r cwestiwn 'beth ddylwn i ei wneud?' yw: 'Fe ddylwn i ei wneud y daioni, sy'n golygu ewyllysio'r hyn y gellir ei ewyllysio'n gytûn ac yn gyffredinol gan yr holl bobl, fel mai - pe byddai'r bobl i gyd yn gwneud hyn - hapusrwydd fyddai'r canlyniad anochel'- *'I should do the good, which means to will that which can be harmoniously and universally willed by all people, such that - were all people to do this - happiness would be the inevitable consequence'*. Mae angen dwfn am hapusrwydd ynghlwm wrth ateb Kant yma. Mae'r cwestiwn 'beth allaf i ei obeithio?' yn codi'n naturiol o'r ateb hwn. A allaf obeithio am yr hapusrwydd a fyddai'n ganlyniad anochel o'r holl bobl yn ewyllysio'n unig yr hyn a ellir ei ewyllysio'n gytûn ac yn gyffredinol gan yr holl bobl?'

Mae Kant yn ystyried y gallwn ni, ac y dylem ni obeithio am hapusrwydd o'r fath. Mae angen i ni wedyn ofyn 'pa fath o realiti y byddai angen i ni ei ragdybio er mwyn gwarantu'r posibilrwydd hwn?' Ateb Kant yw bod yn rhaid iddo fod yn feddwl creadigol sydd wrth ei natur yn dda, a thrwy ei ewyllys, yn darddiad bob peth sy'n yn bodoli a gwarantwr popeth a fydd. Mewn geiriau eraill, mae Kant yn meddwl bod angen i ni gredu yn Nuw.

Yn aml caiff Kant ei gyflwyno fel ffigur llym ag obsesiwn ganddo tuag at ddyletswydd, sy'n ein cyfarwyddo bod yn rhaid i ni wneud y peth iawn beth bynnag yw'r canlyniadau, a hynny heb ystyried a yw'n ein gwneud i ni neu eraill yn hapus. Mae'n cael ei gyflwyno mewn nifer o werslyfrau ar foesege yn gwbl groes i

Kant ar Dduw a'r Da: Gobeithio am Hapusrwydd

safbwyntiau moesol sy'n ceisio hapusrwydd, megis iwtilitariaeth ac, mewn rhai achosion, moeseg rhinwedd. Ond fe fyddai'n anghywir i ddweud nad oes gan Kant unrhyw ddiddordeb mewn hapusrwydd. Mae'n gwrthwynebu i ni ymgyrraedd at ffurfiau rhannol, hunanol

neu anghyflawn o hapusrwydd. Ond mae Kant yn cymeradwyo hapusrwydd, gan ddal gobaith dwfn ar ei gyfer, pan fydd hapusrwydd yn cael ei greu mewn termau digon cosmig a chyffredinol, fel bod pawb yn hapus am y rhesymau iawn.

Geirfa

Rheidrwydd pendant (Categorical imperative): cyfraith foesol y dylid ei chymhwyso i bob cyfrwng rhesymegol.

Daioni Uchaf (Highest Good): lle mae'r gyfraith foesol yn cael ei chadw, a lle, fel canlyniad, ond nid cymhelliant, y mae'r rhai sy'n cadw'r gyfraith foesol yn gyfrannol hapus.

Rheswm ymarferol (Practical reason): rheswm sy'n ymwneud â gwneud pethau (er enghraifft, 'sut i chwarae tenis').

Rheswm damcaniaethol (Theoretical reason): rheswm sy'n ymwneud â gwybod y gwir (er enghraifft, '1 + 1 = 2').

Cysylltau

<https://www.youtube.com/watch?v=bkfbBoTQN4I>. Cyfweiliad YouTube ar Kant gydag awdur yr erthygl hon.

Pwyntiau trafod

1. 'Efallai bod y gwirionedd am y bydysawd, yn y pen draw, yn hollol drist. Byddai'n ddymunol pe byddai pethau'n gweithio allan yn wahanol, fel hapusrwydd yn rhywbeth sy'n codi o weithredu moesol; ond nid yw hynny'n digwydd, neu ddim bob amser yn digwydd, ac yn sicr nid

am byth, ac nid oes gennym unrhyw dystiolaeth dros dybio y gwnaiff byth. Mae rhan o'n brwydr foesol, ein harwriaeth, yn cynnwys bod yn dda beth bynnag, ac yn cynnwys gwneud y gorau o'r gwaethaf. 'Pa synnwyr, os o gwbl, y gellir ei wneud o'r honiad hwn?

Kant ar Dduw a'r Da: Gobeithio am Hapusrwydd

2. A ydych yn cytuno â Kant bod angen i ni fod â gobaith mewn hapusrwydd er mwyn bod yn foesol? Ac a allai cred yn Nuw ddarparu gobaith o'r fath?
3. Beth yw eich barn am yr honiad y gall rhywbeth fod yn ganlyniad priodol cymhelliant, heb iddo'i hun ddod yn gymhelliad'? Caiff un enghraifft ei rhoi yma: moesoldeb ynddo'i hun yw'r cymhelliad, ond hapusrwydd yw canlyniad. Allwch chi feddwl am enghreifftiau eraill? Ystyriwch, yn benodol, gyfeillgarwch a pherthynas rhwng rhieni a phlant.
4. A yw'r syniad bod Kant â diddordeb mewn hapusrwydd yn gwrth-ddweud yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu o'r blaen amdano? Os ydyw, ydych chi o ganlyniad, yn hoffi Kant yn llai neu'n fwy?

Cyfeiriadau

CPPr: Kritik der praktischen Vernunft (1788). *Critique of Practical Reason in Immanuel Kant: Practical Philosophy* (Cambridge: Cambridge University Press, 2008). Trans. and Ed. M.J. Gregor, 5: 3-309.

R: Reflexionen (1753-1804). *Reflections, in Notes and Fragments*. Ed. P. Guyer, Trans. C. Bowman, P. Guyer, & F. Rauscher (Cambridge: Cambridge University Press, 2005), 17: 229 – 19: 654.

Mae Christopher Insole yn Athro Diwinyddiaeth Athronyddol a Moeseg ym Mhrifysgol Durham. Ef yw awdur Kant and the creation of freedom: A theological problem (Oxford: Oxford University Press, 2013) a The intolerable God: Kant's theological journey (Grand Rapids, Michigan: Eerdmans, 2016).

Ffurio-enaid ac 'Echyllterau'

Ian James Kidd

Mae'r erthygl yn cyflwyno'r broblem o ddrygioni cyn canolbwyntio ar y theodiciaeth o 'ffurfio-enaid' a'r her o 'ddrygioni dysteleolegol' sy'n ei hwynebu.

Cyswllt manyleb: CBAC RS1/2 PHIL: Cyflwyno Athroniaeth Crefydd (AS), 3. Drygioni a dioddefaint.

Mae'n ofynnol i bob un o'r crefyddau theistig gynnig ymatebion i 'broblem drygioni'. Mae llawer o bobl grefyddol yn cael profiad o ddrygioni a dioddefaint ofnadwy - salwch poenus, marwolaeth anwyliaid, erledigaeth a gormes - ac maen nhw'n naturiol yn ceisio cael esboniad ynghylch pam fod y Duw, y maen nhw'n ei garu ac yn ymddiried ynddo, yn caniatáu i bethau o'r fath ddigwydd. Mae llawer o feddylwyr crefyddol felly wedi cynnig rhesymau dros pam y byddai Duw yn caniatáu drwg. Fel arfer eu strategaeth yw dadlau bod dioddefaint yn gorfod bod yn rhan o'n bywyd a'n byd, os ydym am fwynhau 'daioni ar radd uchel' - rhywbeth sydd mor werthfawr ei fod yn werth y pris o ddiodeffaint. Y syniad yw bod Duw'n cydnabod bod ambell fath o ddaioni ddim ond yn bosibl mewn byd o ddiodeffaint, felly fe ddylem ymddiried ym marn Duw. Er mwyn ymateb i'r broblem o ddrygioni, felly, mae'n rhaid i ni ddod o hyd i'r 'daioni ar radd uchel' y mae drygioni'n dod gydag ef.

Dyma brosiect *theodiciaeth* - ceisio cyfiawnhau sut mae Duw'n caniatáu i ni brofi drygioni, drwy nodi ei resymau dros wneud hynny. Mae theodiciaeth dda yn gwneud tri pheth. Yn gyntaf, mae'n dangos bod pwrpas i ddrygioni, ei fod yn cyfrannu rhywbeth, ac felly nid yn ddiystyr. Fyddai Duw da ddim yn gadael i ni ddiodeff am ddim rheswm. Yn ail, mae'n dangos bod y diben y mae drygioni'n ei wasanaethu yn *cyfiawnhau*'r drwg hwnnw. Waeth heb â dweud mai diben drygioni yw diddanu pobl ddrwg: mae hynny'n ddiben, yn sicr, ond nid yw'n cyfiawnhau diodeffaint pobl. Rhaid i'r diben fod yn dda, naill ai'n foesol neu'n ysbrydol. Ac yn drydydd, mae theodiciaeth dda yn gorfod dangos nad yw'n bosib i'r daioni mae drygioni'n ei wasanaethu gael ei gyflawni mewn unrhyw ffordd arall. Os dywedwn fod cyfiawnhad i ddrygioni oherwydd ei fod yn gwasanaethu diben, mae rhaid i ni sylweddoli nad oes unrhyw ffordd arall i gyflawni'r diben hwnnw. Mae achosi

Ffurio-enaid ac 'Echyllterau'

drwg yn beth difrifol, ac felly mae angen rhesymau da iawn am hynny.

Caiff un o'r theodiciau mwyaf poblogaidd ei galw'n 'theodiciaeth ffurfio-enaid'. Cafodd ei chyflwyno gan yr athronydd crefydd, John Hick, yn ei lyfr a gyhoeddwyd yn 1966, *Evil and the God of Love*. Mae'r term 'ffurfio-enaid' (*soul-making*) yn cael ei gymryd o waith y bardd John Keats, ond mae'r theodiciaeth ei hunan yn llawer hŷn. Fel y dywed Hick, cafodd ei datblygu'n gyntaf gan un o Dadau'r Eglwys Fore, o'r ail ganrif, Sant Irenaeus, er y gellid dadlau na ddaeth i'r amlwg nes i Hick ei hadfywio. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae'n un o'r theodiciau pwysicaf a mwyaf dylanwadol sydd ar gael heddiw (gweler Hick, 2009).

Ffurio-enaid a dioddefaint

Mae'n gred gyffredinol bod bodau dynol yn amherffaith: yr ydym, meddai Hick, yn dal i fod mewn proses o gael ein creu, a heb fod eto mewn cyflwr gorffenedig - *'still in a process of creation', and not yet in a 'finished state'* (Hick, 1966, tt 253-254.). Mae hwn yn fan cychwyn da am ei fod yn realistig. Ni all unrhyw un honni o ddifrif eu bod yn agos at fod yn foel berffaith, ac eithrio saint efallai, ond ychydig ohonom sy'n saint! (Ac roedd hyd yn oed y saint yn cael trafferth - gyda themtasiwn, chwant, ac yn y blaen - i gyflawni eu statws sanctaidd). Ond hyd yn oed os nad ydym yn berffaith, meddai Hick, yr ydym yn dal i fod yn berffeithiadwy. Gallwn ddewis dechrau proses o hunan-berffeithrwydd moesegol ac ysbrydol, trwy ddisgyblaeth ofalus - hir, caled, ac anodd, yn sicr, ond a fyddai'n dal yn gyfan gwbl o fewn ein cyrraedd. Ni wnaeth Duw yn creu ni'n fodau perffaith, oherwydd pe byddai wedi gwneud hynny, fe fyddem yn cael ein

hamddifadu o bob math o brofiadau a chyflawniadau pwysig.

Pa fath o golled fydden ni wedi ei chael pe baem wedi ein creu yn berffaith? Wel, mae nifer o bethau i'w hystyried. I ddechrau, ni fyddem wedi bod yn rhydd i ddewis ceisio perffeithio ein hunain. Mae'r dewis cyntaf hwnnw i ddilyn llwybr daioni yn hollbwysig, ac rydym yn canmol pobl am wneud hynny. Nesaf, ni allem ddysgu ymarfer y dewrder a'r ddisgyblaeth i wynebu drygioni a dioddefaint, boed hynny'n achos o'n drygioni neu ein dioddefaint ein hunain neu eraill. Ac yn olaf, ni fyddem yn gallu gwybod sut beth fyddai cyflawni perffeithrwydd moesegol yn raddol ac, yn y broses, yn gallu mwynhau'r profiad o ddod i fod yn agosach at Dduw. Mewn llawer o lenyddiaeth grefyddol, rydym yn gweld pobl a oedd ar y dechrau yn ddrwg, yn hunanol a chreulon, yn dod yn raddol, trwy frwydr ac aberth, yn bobl dda, ac yn sanctaidd hyd yn oed, rai ohonyn nhw. Mae Hick yn nodi'n daclus pan ddywed na ellir perffeithio ein cymeriadau, neu ein 'heneidiau' drwy orchymyn dwyfol, dim ond drwy ymateb yn ddigymell a bod yn barod i gydweithredu fel unigolion dynol yn ein gweithredoedd - [*our characters, or 'souls',*] *'cannot be perfected by divine fiat, but only through the uncompelled responses and willing co-operation of human individuals in their actions'* (1966, t. 255). Os ydym yn dysgu bod yn dda drwy ymateb i ddrygioni yn y ffyrdd cywir - trwy fod yn dosturiol, yn amyneddgar, ac yn ofalgar - yna mae rhaid i ddrygioni fodoli i ni ymateb iddo.

Daw Hick i'r casgliad bod profi ac ymgysylltu â drygioni a dioddefaint yn hanfodol os ydym am allu ymwneud â'r broses hon o berffeithio moesol. Dim ond mewn byd o ddiodeffaint y gall pobl fod

Ffurio-enaid ac 'Echyllterau'

yn rhydd i ddewis dilyn llwybr - ac nid dim ond unrhyw lwybr, ond un sy'n dwysau gofynion moesol y mae person yn eu teimlo. Mae'n hawdd peidio â gofalu, neu beidio â meddwl, am bobl eraill - hunanoldeb yw'r dewis hawdd - felly mae Duw'n cyflwyno anawsterau i mewn i'r byd sy'n peri i wir ddisgyblaeth foesol fod yn bosibl. Gan fod Duw'n ein caru ni, mae eisiau'r hyn sydd orau i ni, a hynny yw i ni fod yn greaduriaid aeddfed, moesol ac ysbrydol. A dyna, yn ei dro, sy'n mynnu ein bod yn mynd trwy broses o 'ffurfio enaid', gan brofi ac ymateb i ddiodefaint a drygioni - fel y gwnaeth Iesu a llawer o Gristnogion eraill.

Daeth y syniad bod diodefaint yn 'ffurfio enaid' yn boblogaidd iawn diolch i'r hyn a nododd Hick yn ei lyfr. Mae'n gwneud y tri pheth hynny - fel y dadleuais yn gynharach - y dylai theodiciaeth dda eu gwneud. Mae'n dangos bod diben neu ddaioni'n perthyn i ddrygioni sy'n cyfiawnhau diodefaint, ac na ellid cyflawni hynny mewn unrhyw ffordd arall. Os yw Hick yn iawn, yna nid yw disgyblaeth foesol ddofn, ddilys ond yn bosib os oes bygythiadau a pheryglon a phoenau a diodefaint yn bodoli, er mwyn i ni eu canfod a'u trechu'n fuddugoliaethus.

Drygioni Dysteleolegol

Ond dyma bryder ynghylch y syniad o ffurfio-enaid. Mae'n wir fod rhai pobl yn ystyried bod eu cyfarfyddiadau gyda drygioni a diodefaint yn ffurfio-enaid. Efallai ein bod yn dysgu sut i dosturio trwy ofalu am berthnasau sâl, neu'n dysgu sut i fod yn ddewr trwy ymladd anghyfiawnder, neu'n canfod pan fydd bywyd yn ein taro ni i lawr, ein bod yn gallu codi'n ôl i fyny eto gydag ymdeimlad newydd o amynedd a dewrder. Fe fydd llawer o bobl sy'n ysgrifennu am eu profiadau o salwch yn

adrodd am y profiad hwn - fel bod byw gyda chanser wedi eu gwneud yn gryfach, ac wedi eu trawsnewid i fod yn 'bobl well'. Mae pobl o'r math hwn wedi cael y profiad o ffurfio-enaid ac, yn eu hachos nhw, mae'r theodiciaeth yn gweithio'n dda iawn.

Ond mae hefyd yn wir fod llawer o bobl, mewn gwirionedd, yn cael eu rhwystro neu eu digalonni neu'n torri eu calon oherwydd eu profiadau o ddiodefaint. Mae rhai pobl yn dioddef, ac o'r herwydd yn cael eu gwneud yn bobl oerach - llai gofalgar, llai cariadus. Mae rhai pobl yn cael eu dadsensiteiddio gan eu profiadau o ddrygioni, ac yn gweld bod eu rhinweddau'n cael eu herydu yn hytrach nag yn cael eu hadeiladu, p'un a ydyn nhw'n hoffi hynny ai peidio. Ac mae rhai pobl yn dioddef drygioni mor ofnadwy, mor hir a dwys, nes bod eu cymeriad yn cael ei ddinistrio'n gyfan gwbl, fel mewn achosion erchyll o salwch, artaith, neu gamdriniaeth. Yn yr achosion hyn, nid yw drygioni'n ffurfio-enaid, yn hytrach mae'n torri enaid.

Mae Hick yn cydnabod y mathau hyn o achosion, gan eu galw'n ddrygioni dysteleolegol. Mae'r rhain yn fathau o ddrygioni sydd mor ofnadwy fel na ddaw dim da ohonyn nhw - heb fod yn cyflawni unrhyw ddiben (y term am hyn, mewn Groeg, yw *telos*). Mewn iaith eithaf teimladwy, mae Hick yn nodi y gall fod colled bur yn lle teimlad o ennill, a gall cystudd wasgu'r cymeriad a chipio ohono pa rinweddau bynnag rinweddau yr oedd yn ei feddu, *'instead of gain there may be sheer loss' and 'affliction may crush the character and wrest from it whatever virtues it possessed'* (1996, tt. 330-331). Mae cyfaddef y ffaith am y drygau dysteleolegol hyn yn beth moesol sensitif ac yn ddeallusol onest. Mae'n dangos bod Hick yn ymwybodol bod rhai pobl yn cael profiadau erchyll y dylid eu

Ffurio-enaid ac 'Echyllterau'

cydnabod, ac mae'n dangos ei fod yn cyfaddef problemau mawr ynghylch ei theodiciaeth. Fe fyddai unrhyw athronydd sydd am ddadlau ei bod yn bosib cyfiawnhau drygioni, neu fod drygioni'n cael ei gyfiawnhau, wedi'r cyfan, yn troedio llwybr peryglus iawn. Mae'n hawdd siarad am y 'diben o ddioddef' mewn ystafell ddosbarth neu neuadd ddarlith, ond yn fwy anodd pan fyddwch allan yn ei ganol - yn y slymiau, mewn ysbytai neu mewn parthau rhyfel lle mae dioddefaint ofnadwy o'ch cwmpas ym mhob man.

'Erchyllterau'

Un o feirniaid pwysicaf theodiciaeth llunio-enaid Hick yw'r athronydd Americanaidd ym maes crefydd, Marilyn McCord Adams, sy'n galw'r mathau neilltuol hyn o ddrygioni yn 'erchyllterau' ('*horrors*'). Mae 'erchyllter' yn fath o ddrygioni hynod o bwerus ac ofnadwy, am ddau reswm. Y cyntaf yw nad oes dim da yn dod o'r erchyllterau hyn - dydyn nhw ddim yn gwella'r person mewn unrhyw ffordd, ac mewn gwirionedd fe fyddai'n bosib iddyn nhw ddifrodi neu ddinistrio unrhyw gynnydd moesol sydd eisoes yn digwydd. Mae erchyllterau'n torri i lawr yr hyn y mae disgyblaeth foesol wedi ei adeiladu. Yr ail reswm pam y mae erchyllterau yn arbennig yw oherwydd eu bod yn gallu, meddai Adams, niweidio'r person gymaint fel bod unrhyw gynnydd moesol neu 'ffurfio-enaid' yn y dyfodol yn dod yn bron yn amhosib - [*they can*] '*damage the person so much that any future moral progress - or 'soul-making' - becomes 'virtually impossible'*' (Adams, 1999, t 53). Felly mae erchyllter, nid yn unig yn arafu neu'n oedi'r broses o ffurfio-enaid, ond yn ei rwystro'n hollol rhag digwydd byth eto. Mae rhinweddau'r

enaid, a'i allu i atgyweirio ei hunan, yn cael eu dinistrio.

Os yw Adams yn gywir, yna mae 'erchyllterau' yn broblem ddifrifol ar gyfer theodiciaeth ffurfio-enaid. Holl bwynt y theodiciaeth honno yw bod drygioni, neu y gall drygioni fod, yn deleolegol - yn bwrpasol, yn gwneud rhywfaint o ddaioni. Ond os yw rhai mathau o ddrygioni'n ddysteoleolegol, yna bydd grym theodiciaeth Hick yn cael ei wanhau'n fawr, oherwydd mai dim ond i bobl sy'n dioddef yn llai aml neu'n llai dwys nag eraill y mae'n berthnasol. Gallai hyd yn oed ymddangos nad yw'r theodiciaeth ffurfio-enaid yn berthnasol i'r bobl hynny sy'n dioddef yn fwy aml ac yn fwy dwys - yr union bobl sydd â mwyaf o angen theodiciaeth i'w cysuro a thawelu eu meddwl (gweler Anderson, 2014 a Tooley, 2012, §7.3).

Mae Adams yn cynnig ei hateb ei hun i fodolaeth drygioni erchyll sy'n canolbwyntio ar sut y mae'r rhain yn newid perthynas unigolyn â Duw. Mae'n gofyn, sut gallai Duw 'drechu' peth mor ofnadwy â drygioni erchyll? Mae'r ateb mae hi'n ei roi wedi ei ysbrydoli gan hawliad canolog mewn diwinyddiaeth Gristnogol: mai'r daioni uchaf ar gyfer bod dynol yw mwynhau'r 'weledigaeth wynfydol' – sef cyfarfyddiad uniongyrchol pur gyda Duw ei hun, y math o gyfarfyddiad y mae llawer o gyfrinwyr Cristnogol wedi adrodd iddyn nhw ei fwynhau. Mae Adams, felly, yn awgrymu bod hyd yn oed drygioni erchyll yn cael ei drechu gan weledigaeth wynfydol - ac, ar ben hynny, y bydd Duw, fel gweithred o gariad, yn gwarantu y bydd pob person sy'n dioddef erchyllterau yn ei mwynhau. Os byddwn yn dioddef yn ofnadwy, fel y gwnaeth Crist, yna rydym yn efelychu Duw ei hun - ac yn y ffordd honno yn symud yn nes ato.

Ffurio-enaid ac 'Echyllterau'

Geirfa

Drygioni dysteleolegol

(*Dysteleological evil*) yw math o ddrygioni sy'n ddibwrpas, yn yr ystyr nad oes unrhyw dda yn dod ohono.

Erchyllter (Horror) yw term Adams am ddrygioni dysteleolegol.

Ffurio-enaid (Soul-making) yw'r term sy'n awgrymu'r honiad mai drwy

brofi ac ymateb i ddrygioni a dioddefaint y gallwn sicrhau twf moesol.

Theodiciaeth (Theodicy) yw'r prosiect o amddiffyn neu gyfiawnhau bodolaeth a chymeriad Duw yn wyneb y ffaith o fodolaeth drygioni a dioddefaint.

Cysylltau

https://philreligion.nd.edu/assets/126673/logoi_spring.2014.pdf Anderson, P.S. (2014). Why feminist philosophy of religion? *Logoi: A Publication of the Center for Philosophy of Religion* 1, 12-13.

<http://www.johnhick.org.uk/jsite/index.php/articles-by-john-hick/17-d-z-phillips-on-god-and-evil> Hick, J. (2009). D.Z. Phillips on God and evil.

<http://plato.stanford.edu/archives/su/m2013/entries/evil/> Tooley, M. (2012). The problem of evil. In Edward N. Zalta (Ed.), *The Stanford Encyclopedia of Philosophy*.

Pwyntiau trafod

1. Beth yw pwrpas theodiciaeth?
2. Pam mae John Hick yn meddwl bod twf moesol dilys yn gofyn i ni brofi dioddefaint?
3. Pa sefyllfaoedd y gellid eu galw'n enghreifftiau o 'ddrygioni dysteleolegol', a pham?

Ffurio-enaid ac 'Echyllterau'

Cyfeiriadau

Adams, M.M. (1999). *Horrendous evils and the goodness of God*. Ithaca: Cornell University Press.

Hick, J. (1966, second edition 1977). *Evil and the god of love*. London: Macmillan.

Mae Dr Ian James Kidd yn gymrawd ymchwil yn yr Adran Athroniaeth ym Mhrifysgol Durham ac roedd yn flaenorol yn ddarlithydd mewn athroniaeth crefydd ym Mhrifysgol Leeds. Mae'n gweithio ar ystod o bynciau mewn athroniaeth crefydd, gan gynnwys natur bywyd crefyddol, cyfriniaeth a phrofiad crefyddol, ac athroniaethau ffeministaidd o grefydd. Gweler ei wefan ar <https://durham.academia.edu/IanJamesKidd>.

Moeseq Rhyfel: Damcaniaeth Rhyfel Cyfiawn

Emily Pollard

Mae'r erthygl yn cynnig trosolwg cyffredinol ar ddamcaniaeth y rhyfel cyfiawn, ac yn egluro sut y gellir ystyried rhyfel yn foisol gyfiawn yn unol â'r traddodiad o 'ryfel cyfiawn'.

Cyswllt manyleb: RS3 ETH: Astudio Crefydd a Moeseq (A2), 3. Moeseq rhyfel.

Cyflwyniad

Datblygodd traddodiad y rhyfel cyfiawn dros gryn gyfnod o amser fel ymateb i'r rhagolwg brawychus o ryfel anghyfyngedig, fel ymgais i osod rhai cyfyngiadau ar natur a chynnwys rhyfeloedd sy'n foisol ganiatadwy neu'n 'gyfiawn', trwy ddadlau mai dim ond rhyfel sy'n cyflawni rhai meini prawf sy'n cael ei gyfri'n gyfiawn.

Heb gyfyngiadau o'r fath, mae perygl y gall damcaniaeth ryfel lithro i *realaeth*, damcaniaeth sy'n dadlau na ellir cael unrhyw ffiniau moesol ar ryfel, yn wir nad oes y fath beth â rhyfel gyfiawn na rhyfel anghyfiawn. Ar y safbwynt hwnnw, 'mae rhyfel yn gorwedd y tu draw (neu yn is na) barn foisol' oherwydd mae rhyfel yn gylch o weithred sydd yn gyfan gwbl ar wahân i weithredoedd cyffredin; mae hyn, yng ngeiriau Michael Walzer, 'a world apart, where life itself is at stake ... where self-interest and necessity prevail ... and morality and law have no place' (Walzer 1977, t. 3). Mae dadl sy'n datgan nad yw rheolau moesol yn gymwys oddi

mewn i'r cylch hwnnw, ond yn hytrach fod bodolaeth pob dyn a'i les yn unol â'i weithredoedd - '*every man's being and well-being is the rule of his actions*' (Hobbes, 1994, t. 104). Nid yw hyn, byddai realyddion yn honni, yn safiad moesol, dim ond yn ddatganiad o ffaith, o sut mae pethau. Fe wnaeth yr athronydd Seisnig, Thomas Hobbes (1588-1679) grynhoi'r ddadl hon gyda'r gosodiad '*inter arma silent leges*', sy'n golygu 'mewn amser rhyfel mae'r gyfraith yn ddistaw'.

Fodd bynnag, nid yw'r *realaeth* ynghylch rhyfel yn ystyriaeth y byddai'r mwyafrif o bobl, am resymau ymarferol amlwg, yn dymuno iddo ddod yn gyffredin, waeth pa mor gywir fyddai'r ystyriaeth o realiti yr honnir ei fod yn ei gynrychioli. Oherwydd y gwir beryglon ynghlwm wrth ryfel, sef y posibilrwydd o golledion bywyd ar raddfa eang, sydd yn ei gwneud hi mor anodd ei gyfyngu a'i reoli, yw'r union reswm pam y mae mor bwysig i ymdrechu i wneud hynny. Heb gyfyngiadau o'r fath, byddai'r colledion bywyd dichonadwy ddim ond yn

Moeseq Rhyfel: Damcaniaeth Rhyfel Cyfiawn

cynyddu'n gyflymach, yn arbennig pe byddai honiad y realyddion fod 'rhywbeth yn bosib', os yw gweithredoedd rhywun mewn rhyfel yn rhai na allwn naill eu canmol na'u beio – [*that 'we can neither praise nor blame' someone's actions in wartime*] (Walzer, 1977, t. 3), yn cael ei dderbyn.¹ O gofio na fydd heddychiaeth hollol bob amser yn opsiwn mewn byd lle mae'r angen am amddiffyniad mor aml yn realiti, mae damcaniaeth rhyfel cyfiawn, dros y ddwy fil o flynyddoedd diwethaf wedi esblygu i lenwi'r bwlch.

Mae'r farn fwyaf cyffredin sy'n cael ei derbyn am le a phwrpas y ddamcaniaeth dros ryfel gyfiawn yn darllen fel a ganlyn. Yn draddodiadol, fel mae Walzer yn ei nodi, mae rhyfel yn cael ei barnu ddwywaith – [*a war is*] '*always judged twice, first with reference to the reasons states have for fighting, secondly with reference to the means they adopt*' (1977, t. 21). Y gyntaf o'r ddwy 'farn' yw'r farn a yw'r penderfyniad i fynd i ryfel naill ai'n un cyfiawn neu'n un cyfiawnadwy, a chaiff hyn ei benderfynu yn unol â pha mor bell y byddai'r rhyfel dan sylw'n cydfynd â chyfres o feini prawf yn ymwneud â rheoli'r penderfyniad i fynd i ryfel - '*governing the decision to go to war*' (Bellamy, 2006, t. 121), a adnabyddir fel rheolau *jus ad bellum*. Yn yr un modd, caiff yr ail 'farn' ei gwneud yn unol â chyfres o amodau moesol sy'n rheoli'r ffordd mae'n cael ei gynnal - '*governing its conduct*' (Bellamy, 2006, t.121), a adnabyddir fel *jus in bello*. Hyd yn oed yn fwy diweddar fe ddatblygwyd trydydd math o 'farn', sef y gellir barnu rhyfel yn unol â moeseq yr amgylchedd wedi'r gwrthdaro - '*the ethics of the post conflict environment*' (Patterson, 2012, t. 5), yn unol â thrydedd gyfres o feini prawf: *jus post bellum*.

Ystyrir rhyfel i fod yn gyfiawn neu'n anghyfiawn, felly, yn dibynnu ar a yw'n

cyflawni y cyfan o feini prawf yr *ad bellum*, *in bello* a'r *post bellum* ai peidio.

Datgan 'rhyfel cyfiawn': *Jus ad bellum*

Ystyrir bod *Jus ad bellum* fel arfer yn cynnwys saith criterion, neu feini prawf, a ddatblygwyd er mwyn penderfynu pa bryd, ac a yw'n gyfiawn, neu hyd yn oed yn foisol ganiatadwy, i un wlad gyhoeddi rhyfel yn erbyn un arall.

1 Criterion yr achos cyfiawn

Rhaid cael achos cyfiawn er mwyn datgan rhyfel – hynny yw, rhaid bod rheswm pam mae'r rhyfel yn gyfiawnadwy yn yr achos neilltuol hwn. Y ddau reswm sy'n cael eu dyfynnu amlaf fel achosion cyfiawn dros fynd i ryfel, sydd hefyd yr unig ddau reswm sy'n caniatáu i wledydd i fynd i ryfel dan gyfraith ryngwladol, yw (a) amddiffyn eich gwlad rhag ymosodiad di-alw-amdano gan wlad arall, a (b) amddiffyn gwlad arall rhag yr un peth.

2 Criterion bwriad cywir

Mae'r angen am griterion bwriad cywir yn dilyn ymlaen o fodolaeth rhagdybiedig o achos cyfiawn. Mae'n dweud fod y rhai sy'n datgan rhyfel yn gorfod ei ddatgan oherwydd, ac yn unig oherwydd, yr achos cyfiawn sydd ganddynt dros ei ddatgan. Er enghraifft, rhaid i lywodraeth gwlad sydd wedi cael ei goresgyn, felly sydd ag achos cyfiawn dros ddatgan rhyfel yn erbyn y goresgynnwr, wneud hynny *gyda'r bwriad* o amddiffyn eu gwlad, ac *nid* defnyddio'r goresgyniad fel esgus i ddatgan rhyfel er mwyn cyflawni eu bwriad cyfrinachol i goncro'r wlad arall.

¹ Fe wnaeth Hobbes ddadlau y byddai pobl yn naturiol yn gweithredu'n 'anrhydeddus' yn ystod y rhyfel - ond nid oedd yn cyflwyno hyn fel rheol foisol, ond yn hytrach fel 'cyfraith natur', sy'n golygu y byddai 'creulondeb' o'r fath yn amhosibl i unrhyw gydryfelwr heb fod â gwarediad annaturiol y meddwl tuag at ryfel - *an unnatural 'disposition of the mind to war'* (Hobbes, 1994, p.104). I'r meddwl modern (gan gofio y 'creulondeb' a gyflawnwyd gan lawer o bobl sy'n ymddangos yn gyffredin yn ystod y rhyfeloedd yr ugeinfed a'r unfed ganrif), mae hyn yn ymddangos braidd yn optimistaidd.

Moeseq Rhyfel: Damcaniaeth Rhyfel Cyfiawn

3 *Criterion yr awdurdod cyfreithlon*

Mae'r criterion hwn yn nodi bod yn rhaid datgan rhyfel yn gyhoeddus gan yr awdurdodau priodol, a fyddai yn y mwyafrif o achosion yn golygu llywodraeth y wlad fydd yn ymladd y rhyfel. Mae'r rheol hon wedi ei chynllunio er mwyn atal unigolion preifat rhag hurio byddinoedd preifat a datgan rhyfel - y syniad yw bod y llywodraeth wedi cael ei ethol gan, neu mae'n rheoli â chymeradwyaeth y boblogaeth yn ei gwlad, ac felly mae ganddi'r hawl i wneud penderfyniadau o'r fath ar eu rhan; gan nad oes hawl gan ddinasyddion preifat i beri canlyniadau anochel rhyfel ar y rhai sydd o'u cwmpas, oherwydd nid ydynt wedi derbyn yr hawl fel cynrychiolwyr eu pobl.

4 *Criterion y siawns resymol o lwyddiant*

Mae hwn yn angen y bydd llywodraethau sy'n datgan rhyfel, o wneud hynny yn gwybod bod tebygolrwydd rhesymol y bydd, o fewn rheswm, lwyddiant yn y rhyfel hwnnw. Ni ellir cyfiawnhau rhyfeloedd 'anobeithiol', waeth pa mor foisol yw eu hachos, oherwydd byddai canlyniad rhyfel o'r fath yn golygu colli bywyd heb siawns o wneud y sefyllfa'n fawr gwell i'r rhai ar yr ochr sy'n colli yn y gwrthdrawiad.²

5 *Criterion cyfranoled*

Gyda'r criterion hwn mae'n ofynnol i unrhyw lywodraeth sy'n meddwl mynd i ryfel ystried y buddiannau cyffredinol disgwylidig o'r rhyfel honno o'u cymharu â'r costau cyffredinol disgwylidig (Orend, 2006). Mae ychwanegu'r term '*cyffredinol*' yn dangos y dylai unrhyw wlad ystyried y buddiannau a'r costau i'r gwledydd y mae'n ymladd yn ei herbyn, yn ogystal â'r rhai iddi ei hun. Rhaid iddi wneud cyfri ôl-ddilynol er mwyn cael gwyboda fyddai'r buddiannau o fynd i ryfel yn 'gymesur' – hynny yw, o leiaf yn hafal i,

ac yn well, na'r costau - '*at least equal to and preferably greater than*' [the costs], ac hynny ddim ond os yw'n gyfatebol yn y modd hwn y bydd yn gyfiawn i'r wlad fynd i ryfel.

6 *Criterion pan fetho popeth arall*

Mae'r rheol 'pan fetho popeth arall' yn mynegi, yn eithaf syml, bod yn rhaid i bob dull arall di-drais o ddatrys gwrthdrawiad, wedi cael eu cynnig cyn i ryfel gael ei gyhoeddi – dulliau fel tafodaethau ac apeliadau at luoedd cadw heddwch yn perthyn i drydydd person. Mewn geiriau eraill, ni ddylai neb ddechrau rhyfel oni bai, yn llythrennol, nad oes opsiwn arall yn bosib.

7 *Criterion y datganiad priodol*

Yn olaf, mae'r criterion hwn yn gofyn bod y datganiad o ryfel gan yr awdurdodau priodol yn ddatganiad *cyhoeddus*, fel bod y parti rhyfelgar arall yn ymwybodol ei fod yn wynebu rhyfel.

Ymladd rhyfel cyfiawn: *Jus in bello*

Mae criteria *jus in bello* yn penderfynu pa ddulliau a fyddai'n foisol neu'n gyfiawnadwy i wlad ryfelgar (a'i lluoedd arfog) eu defnyddio i ryfela. Dim ond dau faen prawf sydd; ond mae'r ddau yma'n feini prawf o bwys, sy'n rheoli'r rhan fwyaf o'r agweddau ymddygiad sy'n cael eu caniatáu tuag at y gelyn yn ystod gwrthdrawiad.

1 *Criterion gwahaniaethu*

Mae'r rheol gwahaniaethu'n mynegi bod y sawl sy'n ymladd mewn rhyfel, y milwyr yn ogystal â'u huwch swyddogion sy'n gwneud y penderfyniadau tactegol, yn gorfod gofalu eu bod yn gwneud pob ymdrech i 'wahaniaethu' rhwng

² Mae'r cyfle rhesymol o faen prawf llwyddiant yn canolbwyntio'n benodol yma ar yr ochr sy'n colli oherwydd os yw gwlad yn diffygiol o'r siawns resymol o lwyddo, yna mae'n fwy tebygol na pheidio mai honno fydd yr un a fydd yn colli yn y gwrthdaro posibl; ac er y byddai yr ochr fuddugol yn cael rhywfaint o siawns o wella'r sefyllfa (o leiaf ar gyfer eu hunain) trwy gyflawni eu nodau milwrol, ni fyddai gwlad a orchfygwyd yn cael y cyfle hwn hyd yn oed.

Moeseq Rhyfel: Damcaniaeth Rhyfel Cyfiawn

ymladdwyr a'r rhai sydd ddim yn ymladdwyr. Ymladdwyr fel arfer yw milwyr y gelyn, er bod y diffiniad yn aml yn cael ei ehangu i gynnwys y dinasyddion hynny sy'n perthyn i wlad y gelyn ac sy'n cynorthwyo'u milwyr gyda'u gwaith – er enghraifft, y rhai hynny sy'n gweithio yn y diwydiant arfau rhyfel, neu'r gwasanaeth cudd. Mae'r rhai sydd ddim yn ymladdwyr fel arfer yn cael eu diffinio fel sifiliaid sydd ddim yn rhan o'r rhyfel – mewn geiriau eraill, y rhai hynny sydd â'u galwedigaethau ddim yn uniongyrchol yn ymwneud â'r rhyfel. Yng geiriau A. J. Coates, gellir diffinio ymladdwyr fel, 'those who are engaged in activities that are generated by war itself and would not take place without war', a'r rhai sydd ddim yn ymladdwyr fel, 'those whose activities, on which society depends for its normal functioning, war has not called forth' (1997, t. 238). Mae'r gwahaniaethu y gofynnir amdano gan y *jus in bello* yn cael ei drin mewn modd gwahanol. Mae ymladdwyr yn dargedau cyfreithiol mewn unrhyw weithred filwrol, ond ni ddylid yn fwriadol dargedu'r rhai sydd ddim yn ymladdwyr.

2 Criterion cyfranoldeb in bello

Mae'r ail reol *jus in bello*, cyfranoldeb, yn eithaf tebyg i'r rheol *jus ad bellum* o'r un enw, ond ei bod yn gulach ei ffocws. Mae'n mynegi y dylai byddinoedd drefnu dim ond grym cyfrannol yn erbyn targedau cyfreithiol – '*deploy only proportionate force against legitimate targets*'. Y syniad yw osgoi'r defnydd o rym gormodol, ('*excessive force*') mewn rhyfel – os mai'r targed yw ffatri arfau rhyfel wedi ei lleoli mewn ardal boblog, yna byddai defnyddio arf niwclear i'w dinistrio yn amhriodol oherwydd byddai'r grym a ddefnyddid yn llawer mwy na'r hyn fyddai ei angen i ddinistrio'r ffatri, a byddai'r dinistr a'r lladd o ganlyniad yn hollol anghyfrannol i'r amcan o ddinistrio'r

ffatri'n llwyddiannus. Mae Orend yn gosod y rheol hon yn glir trwy ddatgan, 'do not squash a squirrel with a tank, or swat a fly with a cannon' (Orend, 2006, t. 119). Yn fyr, mae'r rheol hon yn mynnu y dylai milwyr ddefnyddio grym sy'n addas ar gyfer y targed – [*soldiers should*]'use force appropriate to the target' a sicrhau bod y grym dinistriol sydd ei angen i gyflawni'r amcan yn gyfrannol i'r nod o'i gylawni'n dda' - '*make sure ... that the destruction needed to fulfil the goal is proportional to the good of achieving it*' (Orend, 2006, t. 119).

Rhoi diwedd ar 'ryfel cyfiawn': *Jus post bellum*

Cyfes o feini prawf yw *Jus post bellum* sy'n penderfynu sut y gall rhywun rhyfelgar buddugoliaethus weithredu'n gyfiawn ar ddiwedd gwrthdrawiad ac ymhellach. Gan ei fod yn ychwanegiad mwy diweddar at ddamcaniaeth rhyfel cyfiawn, nid yw'r meini prawf hyn wedi cael eu sefydlu mor gadarn fel y meini prawf *jus ad bellum* a *jus in bello*, ond mae rhai amgylchiadau *post bellum* sy'n cael eu defnyddio yn aml yn cynnwys y canlynol.

1 Rhaid i'r buddugwr gael 'achos cyfiawn i derfynu' gelyniaethau

Yn fyr, byddai'n rhaid i 'achos cyfiawn' gwreiddiol amodau'r rhyfel fod wedi ei gyflawni, gan adael yr ymosodwr yn 'fodlon derbyn amodau'r ildiad – '*willing to accept terms of surrender*' a rhoi i'r wlad lwyddiannus 'achos cyfiawn' – '*just cause*' i ddwyn y rhyfel i ben (Orend, 2000, t. 128).

2 Rhaid i'r buddugwr gael y 'bwriad cywir'

Yn union fel y criterion *jus ad bellum* o fwriad cywir, rhaid i'r buddugwr 'fwriadu gweithredu proses o ddiweddu rhyfel yn unig yn nhermau'r egwyddorion hynny

Moeseq Rhyfel: Damcaniaeth Rhyfel Cyfiawn

sy'n gynwysedig yn y rheolau *jus post bellum* eraill – [*the victor must*] ‘intend to carry out the process of war termination only in terms of those principles contained in the other *jus post bellum* rules’ (Orend, 2000, tt. 128-129).

3 Rhaid i unrhyw gosbau a osodir ar y wlad sydd wedi cael ei gorchfygu ddilyn criterion gwahaniaethu

Yn fyr, mae hyn yn gorfodi'r buddugwyr i 'wahaniaethu rhwng yr arweinwyr gwleidyddol a'r rhai milwrol, y milwyr, a'r boblogaeth sifil' (Orend, 2000, t. 129). Mae sifiliaid â 'hawl i imiwnedd rhesymol oddi wrth fesurau ôl-rhyfel cosbol' (Orend, 2008, t. 41).

4 Rhaid i'r 'telerau heddwch' fod yn 'gyfrannol i ddiwedd hawliau amddiffynnol rhesymol'

Mae hyn yn golygu bod y telerau hyn yn gorfod bod yn 'fesuradwy a rhesymol' yn

eu hymdrechion i gyflawni bwriad y rhyfel a'i ddwyn i ben, ac mae'n rhaid iddynt beidio â gwneud hawliadau dianghenraid neu eithafol (Orend, 2000, tt. 40, 129).

Felly, yn unol â damcaniaeth rhyfel cyfiawn, dim ond os yw'r sefyllfa'n cyflawni'r holl feini prawf *jus ad bellum* y gellir datgan rhyfel yn foesol gyfiawn; cyfyngir ar y dulliau moesol a ganiateir o ryfela yn unol â'r meini prawf *jus in bello*; a chaiff cyfnodau diweddu rhyfel eu rheoli gan feini prawf *jus post bellum*.

Cyswlltau

<http://plato.stanford.edu/entries/war/#2> (Brian Orend, *Stanford Encyclopedia of Philosophy*)

http://en.wikipedia.org/wiki/Just_war_theory (Wikipedia)

<http://www.iep.utm.edu/justwar/> (Alexander Moseley, *Internet Encyclopedia of Philosophy*)

Moeseq Rhyfel: Damcaniaeth Rhyfel Cyfiawn

Pwyntiau trafod

1. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno fod gwlad sydd ag achos cyfiawn, awdurdod cyfreithlon, siawns rhesymol o lwyddiant ac yn y blaen, yn foesebol gyfiawnadwy i ddatgan rhyfel? Rhowch resymau dros eich safbwyntiau.
2. A ydych yn meddwl bod cyfiawnhad ar unrhyw adeg dros dorri'r rheolau ymddygiad *jus in bello*? Pa amgylchiadau fyddai'n cyfiawnhau hyn a phaham?
3. Pa weithredoedd fyddai fwyaf addas yn foesol ar ddiwedd rhyfel?

Cyfeiriadau

- Bellamy, A.J. (2006). *Just wars: From Cicero to Iraq*. Cambridge: Polity Press.
- Coates, A.J. (1997). *The ethics of war*. Manchester: Manchester University Press.
- Hobbes, T. (1994). *The elements of law national and politic: Human nature and de corpore politico*, Ed. J.C.A. Gaskin, Oxford: Oxford University Press.
- Orend, B. (2000). Jus post bellum, *Journal of Social Philosophy*, 31(1), 117-137.
- Orend, B. (2006). *The morality of war*. London: Broadview Press.
- Patterson, E. (Ed.) (2012). *Ethics beyond war's end*. Washington, DC: Georgetown University Press.
- Walzer, M. (1977). *Just and unjust wars: A moral argument with historical illustrations*. New York: Basic Books.

Myfyrwraig PhD a thiwtor ym Mhrifysgol Durham yw Emily Pollard. Ei phwnc doethurol yw moeseq rhyfel, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddamcaniaeth rhyfel cyfiawn. Mae hi wedi cyhoeddi papurau yn Philosophical Writings a The Routledge Handbook of Ethics and War: Just War Theory in the 21st Century (Eds. Fritz Alhoff, Nicholas Evans and Adam Henschke).